

Ydi Duw yn Hollalluog?

Agoriad i'r Seiat yn Sasiwn Môn, Llangefni, 3 Mehefin 2009

Wel, ydi Duw yn hollalluog? Mae yna amryw byd o adnodau yn dweud hynny ac mae yna amryw byd o emynau yn dweud hynny hefyd. Fe ddarllenwn, er enghraifft, yn Llyfr Genesis, 'Myfi yw Duw Hollalluog, rhodia ger fy mron' ac yn Llyfr Exodus fe ddarllenwn, 'Ymddangosais i Abraham, Isaac a Jacob fel Duw hollalluog'. Mae'r Salmydd yn sôn am 'aros yng nghysgod yr Hollalluog' a bod yr Hollalluog yn gwasgaru brenhinoedd. Y mae Llyfr Job yn dweud bod yr Hollalluog yn aur ac yn arian pur ac mai ysbryd Duw a'i lluniodd ac anadl yr Hollalluog a'i cadwodd yn fyw. Wrth droi at y Testament Newydd fe ddywedir wrthym yn Ail Lythyr Paul at y Corinthiaid, sy'n ddyfyniad llac o eiriau o'r Hen Destament, 'Byddaf i chwi yn Dad, a byddwch chwi'n feibion a merched i mi, medd yr Arglwydd, yr Hollalluog'. Cyferchir Duw fel y Sanct a'r Arglwydd Dduw Hollalluog yn Llyfr y Datguddiad ac yn niwedd Llyfr y Datguddiad dywedir na fydd teml yn y ddinas newydd oherwydd 'ei theml hi yw'r Arglwydd Dduw, yr Hollalluog'.

Pan drown at y Llyfr Emynau ceir llawer o gyfeiriadau at Dduw fel yr Hollalluog. Gaf fi ddyfynnu rhyw hanner dwsin o linellau yn sydyn i chi? 'Hollalluog nodda ni', 'Hollalluog ydyw'r un a'm cwyd i'r lan', 'Hollalluog yw Duw Israel', 'Hollalluog yw fy Nuw', 'Hollalluog fraich fy Nuw', 'Sanctaid, sanctaid, sanctaid Dduw Hollalluog'. A phetai'r amser yn caniatáu, gallaswn ddyfynnu llawer rhagor. Mae'n amlwg felly fod y Beibl a'r Llyfr Emynau yn cyfeirio at Dduw fel y Duw Hollalluog. Pam felly, meddech chi, fy mod i'n meiddio gofyn y cwestiwn ydi Duw yn hollalluog?

I ateb hynny mae'n rhaid gofyn nifer o gwestiynau eraill, fel pa mor aml mae'r Beibl yn dweud bod Duw yn hollalluog ac ym mhle yn y Beibl y dywedir hyn. Mae'n rhaid gofyn hefyd beth ydi ystyr y gair 'hollalluog' ac a yw'r haerriad yn gyson â'r gwirioneddau eraill a arddelwn am Dduw.

Gawn ni droi i ystyried y cwestiynau hynny yn awr. Fe ddyfynnais sawl adnod yn cyfeirio at Dduw fel Duw hollalluog ond faint o gyfeiriadau sydd yna bod Duw yn hollalluog. Mewn gwirionedd does dim cymaint â hynny. Os yw fy mathemateg i'n gywir, pedwar deg naw o gyfeiriadau a geir yn yr Hen Destament a deg yn unig yn y Testament Newydd. O'r pedwar deg naw o gyfeiriadau yn yr Hen Destament, mae tri deg un i'w gweld yn Llyfr Job ac yn arwyddocaol iawn, mae naw o'r deg cyfeiriad yn y Testament Newydd i'w gweld yn Llyfr y Datguddiad. Fel y gwelwch chi, mewn dau lyfr yn unig y ceir bron i dri chwarter y cyfeiriadau. Pam y ddau lyfr yna yn arbennig? Fe ddof at hynny yn y man.

Ond yn gyntaf mae eisiau sylweddoli nad yw hollalluogrwydd Duw yn thema benodol sylweddol yn y Beibl. Mae angen bod yn ofalus bob amser wrth ddyfynnu ambell adnod o'r Beibl ac awgrymu o ganlyniad bod hynny'n profi bod yr hyn a ddyfynnir yn wirionedd canolog Beiblaidd. Tydy ambell adnod ddim yn ddigon o warant i hynny. Mae'n rhaid edrych ar y Beibl yn gyfan ac ystyried pa mor ganolog ydi rhywbeth yng nghyfanwaith y Beibl. O edrych ar y cyfeiriadau Beiblaidd mae'n rhaid dweud nad oes digon o dystiolaeth dros awgrymu bod hollalluogrwydd Duw yn thema benodol ganolog yn yr Ysgrythur. Ond rhaid prysuro i ddweud bod y Beibl yn cymryd hollalluogrwydd Duw yn ganiataol yn yr ystyr ei fod yn datgan mai Duw yw'r creawdwr a bod popeth yn dibynnu arno. Gellir casglu oddi wrth hyn, y mae'n rhaid bod Duw yn hollalluog mewn rhyw ffordd

neu'i gilydd; ond mewn ffordd gyffredinol, amhendant y dywedir hyn ac nid yn benodol, uniongyrchol. Tydy'r gred ddim yn cael ei chyflwyno mewn ffordd drwyadl ac nid oes ymgais yn unman i ddiffinio mewn unrhyw ffordd yr hyn a olygir wrth hollalluogrwydd Duw. Oesoedd diweddarach sydd wedi mynd ati i fynegi'r gwirionedd yn llawnach, a gwneud hynny yn unol ag athroniaeth y cyfnod, ac yn y fan honno mae'r drwg.

Mae'r gred yn hollalluogrwydd Duw yn medru bod yn un gysurus iawn. Pan mae unigolyn neu gymdeithas yn wynebu argyfwng mae'n gysur credu bod Duw yn hollalluog ac y bydd ef yn amddiffyn ei bobl ac yn cosbi'r drwgweithredwyr. Pa sawl gwaith glywsoch chi rywun yn dweud, 'Tydy Duw ddim yn cysgu wyddoch chi', neu 'Mae Duw yn sifir o gael y gair olaf'? Fe rydwi wedi clywed crefyddwyr yn dweud geiriau fel y rhain droeon lawer, 'Mae'r eglwys yn wan a diamddiffyn y dyddiau hyn ond pediwech â phoeni, fe fydd Duw yn cael ei faen i'r wal yn y diwedd'. Mae'n gysur credu hynny, onid ydi? Fe ddywedais i fod y rhan fwyaf o bell fordd o'r cyfeiriadau at hollalluogrwydd Duw yn y Beibl i'w gweld yn Llyfr Job a Llyfr y Datguddiad, y ddau lyfr yn y Beibl uwchlaw pob un arall sy'n ymdrin ag argyfwng – argyfwng yr unigolyn yn Llyfr Job ac argyfwng yr eglwys ieuanc yn Llyfr y Datguddiad. Onid oedd yn gysur i Job gredu nad gan ei elynion oedd y gair olaf ac yn gysur arbennig i'r eglwys ieuanc dan erledigaeth front gredu y byddai'r Duw hollalluog yn gorchfygu'r ymerodraeth Rufeinig greulon ac yn dyrchafu ei bobl ac yn y diwedd y byddai'r Duw hollalluog oll yn oll. Mewn argyfwng mae credu yn hollalluogrwydd Duw yn medru bod yn gysurus iawn, ond cofiwch chi, cleddyf daufiniog ydyw sy'n codi llu o gwestiynau, yn enwedig pan mae'r argyfwng yn troi'n drasiedi lwyr.

Rhaid i ni ofyn yn awr beth ydi ystyr hollalluogrwydd. Wrth ddechrau dylem wrando ar rybudd John Macquarrie bod y syniad o hollalluogrwydd yn un llawn peryglon a bod rhaid bod yn ofalus iawn wrth ei ddiffinio. Mae diwinyddion ac athronwyr wedi diffinio'r gair mewn sawl ffordd wahanol, rhai ohonynt yn rhai nad oes rhaid i ni roddi fawr o sylw iddynt. Weithiau mae'r gair wedi ei ddeall fel y gallu i wneud unrhyw beth ac mae rhai meddylwyr wedi cymryd hynny i eithafion ynfyd. Dywedodd Descartes, er enghraifft, bod Duw yn medru gwneud cylchoedd sgwâr a bod Duw yn rhinwedd ei hollalluogrwydd yn medru gwneud yr hyn sy'n rhesymegol amhosibl. Atebir hyn yn effeithiol gan Swinburne drwy ddweud bod yr hyn sy'n rhesymegol amhosibl yn gwbl afresymegol ac felly'n afreal. Rydych chi ym myd ffantasi ac nid yn y byd go iawn. Yn ei gyfrol ardderchog *Concepts of Deity* dywed Huw Parri Owen bod dau ddiffiniad posibl i'r gair 'hollalluog'. Gall olygu bod Duw yn teyrnasu dros bopeth neu y gall Duw wneud bopeth ond mae'n mynd ymlaen i ddweud bod rhaid amodi unrhyw ddiffiniad efo'r cymal 'bopeth sy'n gydnaws â'i natur'. Fedr Duw hyd yn oed ddim gwneud rhywbeth drwg yn dda. Fedr Duw ddim gwneud, er enghraifft, ladd neu odinebu yn rhinweddau oherwydd byddai hynny'n gwbl groes i'w natur.

Dyfynnais eiriau John Macquarrie funud neu ddau yn ôl bod y cysyniad o hollalluogrwydd yn un peryglus. Sut felly? Mae'n awgrymu'r hyn sy'n fy mhryderu innau yn fawr, sef ei fod yn medru arwain at ddarlun cwbl anghywir o Dduw a hefyd yn medru creu llawer iawn o broblemau i Gristnogaeth. Y broblem fawr ynglŷn â'r gred mewn hollalluogrwydd yn yr ystyr o fedru gwneud pob peth yw egluro sut mae Duw hollalluog sy'n Dduw cariad yn caniatáu drygioni a dioddefaint yn y byd. Os yw Duw yn Dduw hollalluog ac yn Dduw cariad, fel y dywed Cristnogaeth, pam bod cymaint o boen a dioddefaint yn ein byd? Mae wedi ei ddweud droeon o ystyried drygioni a dioddefaint ein byd ynteu bod Duw yn Dduw cariad ond heb fod yn hollalluog, neu ei fod yn Dduw hollalluog ond heb fod yn Dduw cariad, ond fedrwch chi ddim dal gafael yn y ddwy gred am eu bod nhw'n anghyson â'i gilydd. Mae angen i Gristnogion ddewis un o'r ddau wirionedd am Dduw, ond fedrwch chi ddim dal gafael yn y ddwy yr un pryd.

Gwyddom yn burion fod problem dioddefaint wedi creu trafferthion mawr i'r Eglwys ar hyd y blynyddoedd. Dywedodd yr athronydd A. N. Whitehead fod mwy o berygl i Gristnogaeth gael ei llongddryllio ar graig problem dioddefaint nag mewn unrhyw fan arall. Ym marn amryw o feddylwyr, problem dioddefaint yw'r broblem fwyaf un sy'n wynebu unrhyw un sy'n arddel y ffydd Gristnogol draddodiadol. Yng nghwrs y blynyddoedd ysgrifennwyd cannoedd lawer o gyfrolau ar y pwnc. Ond nid problem i athronwyr yn unig yw hon o bell bell ffordd ond un real ym mywydau pobl a phroblem ddwys fugeiliol i bob gweinidog. Clywodd pob gweinidog y geiriau, 'Pam fod hyn wedi digwydd i mi?' droeon lawer. Yn ystod fy ngweinidogaeth y cwestiwn hwn ofynnwyd amlaf o bob cwestiwn i mi ac fe'i gofynnwyd yn amlach na phob cwestiwn arall efo'i gilydd. O'i gyfieithu, ystyr y geiriau ydi os ydi Duw yn Dduw cariad ac yn Dduw hollalluog, pam fy mod i'n dioddef fel hyn. Gwyddom i gyd am amryw o bobl sydd wedi cefnu ar y ffydd Gristnogol oherwydd eu bod hwy neu un o'u hanwyliaid wedi dioddef yn enbyd. Bu gennyf aelod nodedig o ffyddlon, defosiynol a gweithgar ond pan oedd ei hunig ferch tua deugain oed datblygodd math drwg iawn o gancr. Cefnodd y wraig hon yn llwyr ar y capel gan ddweud ei bod hi wedi digio efo Duw. Yn ôl ei geiriau hi, 'Rydw i wedi cadw fy ochr i i'r fargen; pam nad yw Duw wedi edrych ar fy ôl ar awr fy argyfwng?' Peth hawdd yw beirniadu'r wraig am ddiffyg dyfnder a chrebwyll ei ffydd ond atseinir ei geiriau ym mhob cynulleidfa rywbyrd neu'i gilydd. Welsoch chi'r ddrama bwerus honno 'God on trial' ar y teledu rai misoedd yn ôl? Dyna oedd thema honno. Drama ydoedd wedi ei lleoli yn un o wersylloedd yr Almaenwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd a nifer o garcharorion o Iddewon y noson cyn i amryw ohonynt fynd i'r siamberi nwy yn gofyn pam nad oedd Duw yn ymyrryd i achub ei bobl. Ddarllensoch chi ysgrif heriol Gareth Wyn Jones yn *Y Traethodydd* ym mis Ionawr 2008 dan y pennawd 'Tswnamis Bach a Mawr'? Y cwestiwn mae Gareth yn mynd i'r afael ag o ydi pam fod Duw yn caniatáu tswnamis bach a mawr i ddigwydd yn ei fyd ac yntau yn ôl y ffydd Gristnogol yn Dduw cariad a Duw hollalluog?

Mae'n rhaid i bawb ohonom sy'n arddel y ffydd Gristnogol, ac yn enwedig os ydym yn arweinwyr Cristnogol o unrhyw fath, gymryd y cwestiwn hwn yn hollol o ddifri. Mae'n hawdd bod yn nawddoglyd tuag at amheuan y werin a bod yn feirniadol o ymresymiad meddylwyr fel Gareth Wyn Jones ond mae gwneud hynny'n gwbl anfoesol ac anghyfrifol. Os ydym am ennill pobl at y ffydd Gristnogol, mae'n rhaid cymryd eu cwestiynau o ddifri. Mae yna lawer o bobl eisiau credu ac mae'n ddyletswydd arnom ni, yn enwedig arweinwyr ein heglwysi, i fynd i'r afael â'u problemau. Tydy pobl ddim yn gofyn cwestiynau am eu bod nhw eisiau ymosod ar Gristnogaeth ond am eu bod nhw eisiau atebion. Ein lle ni yw ceisio eu rhoddi. Heb unrhyw amheuaeth mae problem dioddefaint yn anferth o broblem i Gristnogaeth. Rydw i wedi ymdroi llawer efo'r broblem hon ac wedi darlithio cryn dipyn arni yng nghwrs y blynyddoedd. Fe wn yn burion am yr holl 'atebion' a gyflwynir a'r cyfan a ddywedir i liniaru'r broblem, rhai ohonynt yn rhai sylweddol a rhai eraill yn codi mwy o gwestiynau nag a roddir o ateb. Fe wn bod poen yn ein rhybuddio bod rhywbeth mawr o'i le. Fe wn bod llawer o'r dioddefaint oherwydd camddefnydd bodau dynol o fyd ac adnoddau Duw. Fe wn i hefyd mai byd yn y broses o ddatblygu yw ein byd ac heb gyrraedd ei lawn dwf. Ac fe wn i hefyd bod rhyddid a threfn foesol yn rhagdybio byd gyda'r posibilrwydd o argyfwng a dioddefaint yn rhan ohono. Ond wedi dweud y cyfan i gyd mae'n rhaid inni gydnabod nad oes gennym ateb i'r broblem, yn enwedig os ydym am ddal gafael yn y ddwy gred, sef bod Duw yn hollalluog ac yn gariadus.

Yn fy marn i, yr hyn sy'n gyfrifol i raddau pell am ein trafferthion yw ein cred anghywir am hollalluogrwydd Duw. Mae nifer o feddylwyr crefyddol fel Thisleton a Hartshorne yn

awgrymu mai gwreiddyn y drwg ydi meddwl am hollalluogrwydd mewn termau o rym bydol. Welsoch chi ddrama fendigedig Aled Jones Williams 'Iesu'? Taswn i'n cael fy ffordd fy hun fe fuaswn yn gwneud ei gwyllo'n fater gorfodol i bob gweinidog a blaenor. Mae'r thema yn un ysgytiol a thydi'r bobl hynny'n sydd wedi bod yn cwyno am ddefnydd Aled o ferch fel Iesu heb ddechrau deall yr hyn roedd yn ceisio ei ddweud. Ei neges ydi bod Crist wedi cael ei herwgipio gan yr Eglwys a'n bod ni wedi derbyn dehongliad macho, milwrol ac ymherodrol o Grist a Duw. Mae Aled yn ceisio adfer y gwir Grist, 'y Crist dall diallu' yn ôl y Prifardd John Evans, Llanegryn. Er mwyn gwneud hynny mae'n cymryd merch fel Crist gan fod cymdeithas ar hyd y blynyddoedd wedi edrych ar ferch fel y llestr gwanaf. Yn y byd creulon dynol pethau eiddil ydi merched. Un felly oedd Crist, medde Aled, un heb unrhyw awdurdod na gallu secwlar, un ar drugaredd pawb a phopeth, un gafodd ei threisio, yn ôl Aled, cyn cael ei chroeshoelio; ac yn fy marn i, cael ei threisio ydi'r peth mwyaf diraddiol allai ddigwydd i ferch. Ond yn ail act y ddrama mae Peilat a Herod yn mynd ati i greu Crist gwahanol, Crist ar eu llun a'u delw eu hunain, Crist grymus, Crist a chleddyf yn ei law, Crist buddugoliaethus, Crist efo coron a meitr ar ei ben, Crist a phawb yn ymgrymu ger ei fron. Mae'n arwyddocaol fod Peilat yn y fan hyn yn gweiddi am Grist 'Pantokrator', sef y gair Groeg am 'hollalluog'. Dyma yw camgymeriad yr Eglwys ac mae pawb ohonom yn euog. Patrwm yr ymherodraeth Rufeinig dderbyniwyd gan yr Eglwys yn y canrifoedd cynnar i'w hierarchi. Yn y Canol Oesoedd roedd yr Eglwys yn rym ar yr un gwastad â brenhinoedd a gwladwriaethau. Mae llawer o eglwysi cred wedi meddwi ar rwysg ac awdurdod. A chofiwch, tyda ni ddim yn ddieuog. Onid yda ni'n rhamantu am yr Eglwys filwriaethus ac yn canu am farchog Iesu yn llwyddiannus ac wrth ein bodd efo'r emyn, 'Mae'r Brenin yn y blaen, Rŷm ninnau oll yn hy, ni saif na dŵr na tân o flaen ein harfog lu' Yr un agwedd meddwl sydd y tu ôl i'r cyfan i gyd, Crist a Duw grymus, hollalluog sy'n 'sgubo popeth o'i flaen.

Mae'n syniad ni o hollalluogrwydd gan amlaf yn un cwbl secwlar a heb fod yn gyson â'r datguddiad Cristnogol o Dduw. Gwirionedd mawr ein ffydd ni ydi bod Duw yn Dduw cariad. Ar y gred honno ni allwn gyfaddawdu o fath yn y byd. Ni fyddai gennym Gristnogaeth o gwbl heb y gred ganolog hon. 'Duw cariad yw' yw calon ein ffydd. Mewn un ffordd, cariad ydi'r peth gwannaf ar wyneb y ddaear yma. Does dim grym mewn cariad. Does ganddo ddim awdurdod; medrwch chi anwybyddu cariad, gamdrin cariad, ddefnyddio cariad, gymryd mantais ar gariad, wrthod cariad. Medrwch chi droi cariad o gwmpas eich bys bach. Medrwch chi fod yn greulon tuag at gariad. Tydy cariad ddim am daro'n ôl na mynnu dial. Mae cariad mewn un ffordd fel clai yn eich dwylo. Ond eto fe wyddom ni mai cariad yw'r peth mwyaf grymus a gwydn ar wyneb y ddaear yma. Tydy cariad byth yn darfod. Tydy cariad byth yn cael ei drechu. Tydy cariad byth yn torri ei galon. Tydy cariad byth yn ildio. 'Cariad, cariad wela'i'n berffaith gario'r dydd'.

Beth am hollalluogrwydd Duw? Hollalluogrwydd cariad ydi hollalluogrwydd Duw. Fe ysgrifennodd Karl Barth, 'Os ydach chi eisiau gweld hollalluogrwydd Duw ar waith, edrychwch ar y groes'. Dywed Colin Gunton fod dioddefaint Duw yng Nghrist yn hollalluog am nad oes dim byd am fedru gorchfygu dioddefaint Duw yng Nghrist. Crist y groes yw gallu a doethineb Duw. Dywed Hartshorne, 'Mae Duw yn deyrn ac yn frenin yn unig wrth fod yn was ac yn was dioddefus i'r byd i gyd.' Dywed David Pailin, athronydd o Brifysgol Manceinion, mai hollalluogrwydd Duw yw'r pŵer sydd gan Dduw i garu hyd yr eithaf, gallu ydi o efo amynedd dibendraw i ddenu ac i berswadio gyda'i gariad anorchfygol. Nid grym i fynnu ei ffordd, nid grym i ymyrryd, nid grym i goncro gelynyon na grym i 'sgubo popeth o'i flaen ydi o. Grym cariad ydi grym hollalluogrwydd Duw ac nid grym milwriaethus unbeniaethol.

Yn gynharach bêm yn sôn am broblem dioddefaint. Beth sydd gan hyn i'w gynnig i geisio datrys y broblem honno? Beth sydd gennym i'w ddweud wrth Gareth Wyn Jones? Hyn: nid un sy'n sefyll fel brenin o'r tu allan yn rheoli'r byd yw'r Duw Cristnogol ond Duw sydd yng nghanol ei fyd yn dioddef, yn cydymdeimlo, yn gweithredu trwy ei gariad. Mae o fel tad yn sefyll ar yr ymylon yn parchu rhyddid ei greadigaeth a'i greaduriaid ond eto'n ysu trwy ei gariad i weithredu yn a thrwy ei bobl. Mae mawr angen i ni hepgor y syniad o Dduw hollalluog fel brenin yn gorchymyn ac yn mynnu ei ffordd a gosod yn ei le y darlun Cristnogol o Dduw fel tad cariadus, yn dioddef yn amyneddgar, yn perswadio'n ddiddiwedd, yn rhoi heb gadw dim yn ôl.

A ddylem ddefnyddio'r gair 'hollalluog' o gwbl o gofio mor hawdd yw camddeall ei ystyr? Dylem, yn sicr, mewn gweddi ac addoliad. Mae'r broblem yn codi pan ydym yn caledu'r ystyr yn oer ac yn rhesymegol. Wedyn, mae'r darlun o Dduw yn cael ei ystumio gennym gan gollu golwg ar hanfod ein ffydd. Mae geiriau gweddi ac addoliad yn debyg mewn rhyw ffordd i eiriau mewn barddoniaeth. Ystyr a gwerth delweddol a ffigurol sydd i eiriau mewn barddoniaeth. Mae bardd ar adegau yn telynegu am ei gariad ac yn rhamantu am fyd natur. Nid defnyddio geiriau'n rhyddieithol i'w dehongli'n ffeithiol y mae. Mae hogyn ifanc yn dweud wrth ei gariad mai hi yw'r ferch brydferthaf yn y byd. Nid dweud mae o pe cynhelid cystadleuaeth 'Pwy yw'r bertaf' i holl ferched y byd i gyd mai hi fyddai'n ennill. Mae o'n gwybod fel arall. Dweud mae o mai hi yw'r ferch brydferthaf yn y byd yn ei olwg ef. A pheth gwahanol iawn yw hynny ond yr un mor wir. Mae o'n mynegi gwirionedd ond nid un ffeithiol. Yn yr un modd mae'n berffaith dderbyniol siarad am Dduw fel Duw hollalluog cyn belled â'n bod ni'n sylweddoli nad gwneud gosodiad ffeithiol ydan ni wrth siarad felly. Mynegi'n mawl a'n haddoliad yr ydym ac nid gwneud datganiadau diwinyddol ac athronyddol, ac mae byd o wahaniaeth rhwng y ddau beth.

Fe ddechreuais drwy ofyn ydi Duw yn hollalluog. Fy ateb ydi, wrth gwrs ei fod o cyn belled â'n bod ni'n sylweddoli mai hollalluogrwydd cariad ydio a dim mwy.

MEIRION LLOYD DAVIES

Pwllheli